CYNLLUN GWASANAETH LLYFRGELLOEDD ABERTAWE

2021-23

Cyngor Abertawe
Swansea Council

SWANSEA ABERTAWE
Libraries
Llyfrgelloedd

Friday, 15 October 2021

CYNNWYS

Gweledigaeth	Tudalen 2
Blaenoriaethau ac Amcanion	Tudalen 2
Cenhadaeth y Llyfrgell	Tudalen 3
Blaenoriaethau'r Gwasanaeth Llyfrgell	Tudalen 4
Cefndir	Tudalen 4
Cynllun Gweithredu 2021	Tudalen 5

1. **Gweledigaeth**

Darparu gwasanaeth llyfrgell ystwyth, cynhwysol a chynaliadwy sy'n galluogi dinasyddion a chymunedau i ymgysylltu'n ystyrlon â diwylliant, darllen, technoleg a dysgu yn eu cymuned leol.

Blaenoriaethau corfforaethol

- Diogelu pobl rhag niwed
- Gwella addysg a sgiliau
- Trawsnewid ein heconomi a'n hisadeiledd
- Trechu tlodi
- Cynnal a gwella adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Abertawe
- Trawsnewid a datblygu'r cyngor yn y dyfodol

2. **Cenhadaeth y Llyfrgell**

Darparu gwasanaeth rhydd a chyfartal sy'n berthnasol i anghenion y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu o fannau sy'n hygyrch, yn ddiogel ac yn groesawgar, gan ddarparu adnoddau sy'n ysgogol, yn ymgysylltu â'r cyhoedd, yn addysgol ac yn adlewyrchu diwylliant a threftadaeth Abertawe. Fe'i cyflwynir gan dîm sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n fedrus iawn wrth gefnogi ystod amrywiol o anghenion.

3. **Blaenoriaethau'r Gwasanaeth Llyfrgell**

- Cyfuno gwasanaethau traddodiadol a digidol drwy ddatblygu **strategaeth ddigidol** ar gyfer llyfrgelloedd
- Cefnogi **darllen a llythrennedd** i bawb, gan arwain at well canlyniadau bywyd a lles
- Cefnogi cynlluniau'r cyngor i ymchwilio i Hybiau Cymunedol a lleoliad newydd ar gyfer y Llyfrgell Ganolog
- Cefnogi agendâu **iechyd a lles** drwy weithgareddau llyfrgell
- Darparu cyfleoedd i asiantaethau a phartneriaid weithio i fynd i'r afael â mentrau **tlodi a chyflogadwyedd**
- Adlewyrchu pob cymuned wrth hyrwyddo'n casgliadau **diwylliant, treftadaeth** a hanes lleol, a chynnwys y cyhoedd yn y rhain.

4. (a) **Cefndir**

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i sicrhau bod darparu 'gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon' sy'n annog oedolion a phlant i wneud defnydd llawn o'r gwasanaethau llyfrgell yn ofyniad statudol o dan **Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964**.

Mae **Fframwaith Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru** yn nodi cyfres o hawliau craidd a dangosyddion ansawdd ar gyfer dinasyddion Cymru sy'n cael eu hadrodd gan awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, ac yn eu galluogi i gynnal eu dyletswydd wrth asesu effeithlonrwydd ac ehangder darparu gwasanaethau llyfrgell yng Nghymru.

Mae'r gwasanaeth yn cyflawni hyn drwy rwydwaith o **17 o lyfrgelloedd** ar draws ardal sirol Abertawe. Mae ganddo dîm rheoli canolog bach sy'n darparu cymorth arbenigol i'r llyfrgelloedd cymunedol ar ffurf gwasanaethau cyfeirio a hanes lleol, gwasanaethau plant, caffael a phrosesu llyfrau, TG, datblygu cynulleidfaoedd a gweithgareddau hyrwyddo. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnal gwasanaeth cymunedol i gartrefi gofal a phobl sy'n gaeth i'r tŷ er mwyn darparu gwasanaethau llyfrgell i'r rheini na allant fynd i lyfrgelloedd. Mae llyfrgelloedd Abertawe hefyd yn rhedeg llyfrgell carchardai yng Ngharchar Abertawe dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth adnewyddadwy blynyddol.

Yn ychwanegol i safleoedd llyfrgell, mae'r gwasanaeth yn darparu amrywiaeth o **adnoddau digidol** i gefnogi mynediad at ddarllen, gwybodaeth a llwyfannau dysgu sy'n hygyrch i bawb, ni waeth eu lleoliad ffisegol.

Cefnogir y gwasanaeth llyfrgell gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu nifer o wasanaethau digidol i bob llyfrgell ar draws Cymru, gan gynnwys Ancestry, e-lyfrau, e-lyfrau llafar ac e-gylchgronau. Gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion trwy fynd i llyfrgelloedd.cymru/my-digital-library/

(b) **Ystadegau Perfformiad (ffynhonnell - Chweched Fframwaith Ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru - Ffurflen Flynyddol)**

	2017/18	**2018/19**	**2019/20**	**2020/21***
Ymwelwyr	1,061,615	1,048,739	927,265	64,063
Benthyciadau llyfrau	930,194	912,607	960,349	126,722 (heb gynnwys adnewyddu eitemau)
Benthyciadau ar gyfer eitemau nad ydynt yn llyfrau a digidol	101,141	45,073	40,112	188,191
Nifer y Defnyddwyr	47,972	45,313	32,394	32,394
Gwariant Net	£2,753,995	£2,849,971	£2,896,140	£2,603,521

*cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru fel rhan o fframwaith adrodd am berfformiad cenedlaethol 2021/22 - yn amodol ar gadarnhau cyhoeddi adroddiad perfformiad terfynol 2020/21 (Cynllun Gweithredu'r Gwasanaeth Llyfrgell 2021 yn yr arfaeth).

Friday, 15 October 2021

	Amcan	Camau Gweithredu (blaenoriaeth)	Amserlen	Cwblhawyd
Digidol	Cwblhau Strategaeth Ddigidol ar gyfer y gwasanaeth gan gefnogi'r gweithlu a chyflwyno gwasanaethau.	Cymryd rhan yn y rhaglen **Hyrwyddwyr Digidol** a chreu adnoddau hyfforddiant lleol ar-lein i staff. Adolygu ac ehangu'r defnydd o negeseuon SMS ac e-byst ar Enterprise a **gwella'r profiad i ddefnyddwyr** ar y safle. Creu, datblygu ac ailddefnyddio cynnwys digidol i ymgysylltu â chwsmeriaid a gwella mynediad at adnoddau ar-lein. Adeiladu ar yr etifeddiaeth Estyn Allan. Defnyddio tabledi mewn llyfrgelloedd (at ddefnydd cwsmeriaid) i wireddu allbynnau prosiect ariannu LIC, a mynd i'r afael ag eithrio digidol a'r agendâu Digidol yn Gyntaf. Darparu cefnogaeth i blant a rhieni ddefnyddio llwyfannau ar-lein ar gyfer adnoddau plant. Datblygu tudalennau i blant ar Enterprise a helpu i greu cynnwys digidol ar-lein.	Mehefin 21 Mawrth 21 Rhagfyr 21 Mawrth 21 Medi 21 Mawrth 21 Yn parhau	
Darllen a llythrennedd	Adolygu'r polisi stoc i adlewyrchu blaenoriaethau diwylliannol a chymdeithas, a sicrhau	Adolygu, diweddaru a rhannu	Hydref 21	

	ei fod yn addas i holl gwsmeriaid y llyfrgell.	Rhoi'r cynnig newyddion ar-lein diwygiedig ar waith ac adolygu'r cynnig cyfnodolion a phapurau newyddion argraffedig.	Medi 21	
	Adolygu papurau newyddion a chyfnodolion	Creu rhaglen adolygu ac addasu casgliadau yn y Llyfrgell Ganolog a'i rhoi ar waith	Medi 21	
	Rheoli casgliadau - adolygu ac addasu casgliadau presennol	Cyflwyno llyfrau wedi'u bandio yn yr holl lyfrgelloedd ac ehangu'r dewis o deitlau sydd ar gael	Mawrth 21	
	Ehangu'r prosiect llyfrau wedi'u bandio	Cynllun hyrwyddo i sicrhau bod y gwasanaeth Clicio a Chasglu'n cael ei gynnal ym mhob llyfrgell.	Medi 21	
	Gwasanaeth clicio a chasglu a bagiau llyfrau	Datblygu bagiau llyfrau wedi'u curadu/yn seiliedig ar thema ymhellach ym mhob llyfrgell	Rhagfyr 21	
		Gwella ymwybyddiaeth o newidiadau, dod o hyd i deitlau ac adnoddau newydd e.e. amrywiaeth yn hanes Cymru.	Rhagfyr 21	
	Adlewyrchu anghenion y cwricwlwm newydd i ysgolion Cymru wrth gaffael stoc newydd	Gwella ffasedau metaddata a chwilio y catalog fel bod teitlau'n haws dod o hyd iddynt wrth chwilio.	Mawrth 21	
	Gwella amlygrwydd amrywiaeth yng nghasgliadau'r llyfrgell	Sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei adlewyrchu mewn arddangosfeydd ac wrth hyrwyddo llyfrau ym mhob lleoliad	Mawrth 21	

	Mentrau llythrennedd i blant	Targedu hyrwyddo llyfrau ieithoedd tramor i gynulleidfaoedd perthnasol Datblygu cardiau adolygiad llyf i blant ymhellach a'u hamlygu ar-lein Cydlynu gweithgareddau sialens ddarllen yr haf a Carnegie Greenaway	Mawrth 21 Rhagfyr 21 Medi 21	
Hybiau a Lleoliadau Cymunedol	Archwilio ffrydiau incwm newydd Adleoli'r Llyfrgell Ganolog (HWB) Gweithio gydag Ysgolion	Hyrwyddo'r gwasanaeth ymchwil Llinell y Llyfrgelloedd o'r newydd. Ceisio mynediad at gyllid allanol i wella llyfrgelloedd a datblygu prosiectau newydd. Archwilio defnydd y tu allan i oriau. Ailgyflwyno nwyddau a mentrau eraill sy'n creu incwm. Ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer lleoliad newydd y Llyfrgell Ganolog. Creu grwpiau ffocws staff i helpu i nodi anghenion ac i ddylanwadu ar ddefnydd a dyluniad presenoldeb yn y llyfrgell newydd. Cefnogi a grymuso rheolwyr llyfrgelloedd i ailymgysylltu ag ysgolion yn rhithwir neu	Rhagfyr 21 Yn parhau Mawrth 22 Mawrth 22 Mawrth 22 Rhagfyr 21	

	Grymuso Staff	wyneb yn wyneb i ailadeiladu ar ymweliadau dosbarth i lyfrgelloedd, neu drafodaethau yn ystod gwasanaethau ac yn y dosbarth. Darparu cymorth ymarferol i alluogi rheolwyr llyfrgelloedd i wneud eu gwaith goruchwyliol yn well ac adeiladu ar faterion rheoli. Holl staff y llyfrgell i gymryd rhan mewn creu cynnwys digidol - ymagwedd gwasanaeth cyfan	Mawrth 22 Mawrth 22	
Iechyd a Lles	Hyrwyddo Darllen yn Well Argymhellion Gwasanaeth Cymunedol Cefnogaeth ar gyfer Cynllun Heneiddio'n Dda Cymru	Newid ffyrdd o hyrwyddo adnoddau Darllen yn Well mewn llyfrgelloedd. Rhoi canfyddiadau ar waith mewn perthynas â chymorth newydd i gartrefi gofal, yn seiliedig ar angen a fynegwyd, gwell data ar anghenion cwsmeriaid a chwmpas ehangach o'r gynulleidfa sy'n defnyddio'r gwasanaeth, yn benodol y gwasanaeth i ofalwyr, cymunedau mwy amrywiol Diweddaru cynnwys y wefan ar gyfer gwasanaethau cymunedol Rhoi mentrau arfer da ar waith i fynd i'r afael â rhwystrau i gael mynediad i bobl hŷn, e.e. corfforol, cyfathrebu, prosiectau atal unigrwydd, allgáu digidol.	Rhagfyr 21 Medi 21 Rhagfyr 21 Rhagfyr 21 Gorffennaf 21 Rhagfyr 21 Yn parhau	

	Newid yn yr hinsawdd a lleihau'n hôl troed carbon	Ailddefnyddio ac ailgylchu lle bynnag y bo'n bosib. Chwilio am ddewisiadau amgen cost effeithiol wrth brynu. Lleihau'r defnydd o orchuddion plastig ar lyfrau llyfrgell	Mawrth 22	
Tlodi a Chyflogadwyedd	Adolygu dirwyon Adfer cysylltiadau â'r gwasanaethau cyflogadwyedd Allgáu digidol	Adolygu'r dirwyon sy'n cael eu cyflwyno am lyfrau hwyr Ailadeiladu cysylltiadau â gwasanaethau cyflogadwyedd yn ddiogel, yn dilyn COVID Gweithio gyda Chymunedau Digidol Cymru ar brosiectau newydd Ail-lansio'r Clwb Codio a benthyciadau microbits	Mawrth 22 Medi 21 Yn parhau Medi 21	
Amrywiaeth a Threftadaeth	Denu cynulleidfaoedd amrywiol newydd	Cefnogi ac arwain rheolwyr y llyfrgell i rwydweithio'n well gyda grwpiau lleol nad ydynt yn defnyddio'r llyfrgell ar hyn o bryd Y Tîm Gwasanaethau Cymunedol i ymgysylltu â phartneriaid rhwydwaith i wella amlygrwydd eu gwasanaeth i gynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd	Rhagfyr 21	